



Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Crynodeb yn yr iaith Gymraeg - diwygio AGFS

1. Mae'r papur hwn yn nodi cynigion ar gyfer diwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr (AGFS). Mae'r cynllun hwn yn talu i eiriolwyr amddiffyn cleientiaid yn Llys y Goron. Y tro diwethaf i'r cynllun AGFS presennol gael ei newid yn sylweddol oedd yn 2007 ac mae'r Llywodraeth o'r farn fod angen iddo gael ei foderneiddio.
2. Cred y Llywodraeth fod angen i'r trefniadau presennol gael eu diwygio. Mae'r AGFS yn dibynnu'n ormodol ar Dudalennau Tystiolaeth yr Erlyniad (PPE), a gyflwynir gan Wasanaeth Eryl y Goron, fel dull o benderfynu pa mor gymhleth yw achosion unigol - ac felly faint y dylid ei dalu i eiriolwr amddiffyn. Mae'r cynllun cyfredol hefyd yn dibynnu ar nifer y tystion i helpu i benderfynu ar y ffi sydd i'w thalu.
3. Mae ein system cyfiawnder yn newid ac mae ffurfiau newydd ar dystiolaeth yn dod yn nodweddion hanfodol mewn llawer o achosion troseddol. Nid cyfrif tudalennau a chyfrif ffurfiau newydd o dystiolaeth electronig wedi'u trosi'n "dudalennau" yw'r ffordd fwyaf effeithiol bellach o asesu faint o waith y mae angen i eiriolwr ei wneud mewn achos unigol, ac o'r herwydd faint ddylid ei dalu i'r eiriolwr hwnnw.
4. Mae ein cynllun arfaethedig yn lleihau'r ddibyniaeth ar gyfrif tudalennau, ac yn lle hynny, byddai'n cyflwyno system dosbarthu troseddau fwy soffistigedig – yn seiliedig ar faint o waith sydd ei angen fel arfer ym mhob achos. Byddai'r amser a dreulir yn y llys yn eirioli, gwaith y mae ein system cyfiawnder yn dibynnu arni, hefyd yn dod yn ffactor pwysicach o ran y ffi a delir.
5. Lluniwyd y cynllun arfaethedig i fod yn niwtral o ran cost - nid oes unrhyw fwrriad i leihau na chynyddu'r gost gyffredinol. Byddai'r cynllun arfaethedig yn ailddosbarthu arian, gan adlewyrchu'r gwaith a wneir yn well, a moderneiddio'r system yn unol â'r diwygiadau Rheoli Achosion yn Well (BCM) sy'n gweddnewid y ffordd y mae ein llysoedd troseddol yn gweithredu.
6. Mae'r papur ymgynghori yn nodi sut y byddai'r ffioedd yn y cynllun arfaethedig yn cael eu cyfrifo, o'u cymharu â'r cynllun presennol - ac yn rhoi crynodeb o'r cynlluniau presennol ac arfaethedig (Adran 3 y papur ymgynghori). Yna mae'n nodi cynnwys y bwndel ffioedd graddedig, unwaith eto gan gymharu'r cynlluniau presennol ac arfaethedig, er hwylustod (Adran 4 y papur ymgynghori).
7. Nodwedd allweddol yn y cynllun arfaethedig yw dad-fwndelu sawl elfen o'r ffi raddedig, sy'n golygu y byddai symiau penodol yn cael eu talu i eiriolwyr am elfennau unigol achos (er enghraifft ffioedd ar wahân am hyd at chwe ymddangosiad safonol). Byddai hyn yn cynyddu sicrwydd i bob eiriolwr ynghylch incwm, yn enwedig pan fo sawl eiriolwr yn gweithredu yn yr un achos.

Diwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr

8. Canolbwynt y cynllun cyfan yw system gynhwysfawr o gategoreiddio troseddau. Byddai'r tabl troseddau cynhwysfawr hwn (Atodiad 4 y papur ymgynghori) yn caniatáu i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) symud i ffwrdd o ddefnyddio PPE fel procsi ar gyfer cymhlethdod wrth gyfrifo ffioedd.
9. Caiff y system arfaethedig o gategoreiddio troseddau ei hesbonio'n fanwl yn Adran 5 y papur ymgynghori, sydd hefyd yn ymdrin â'r ffioedd 'cymharol' sydd i'w talu am wahanol fathau o eiriolwr (Cwnsler y Frenhines (QC), Eiriolwr Iau Arweiniol, Eiriolwr Iau dan Arweiniad ac Eiriolwr Iau ar ben ei hun) a ffioedd gloywi. Mae hefyd yn esbonio pam, mewn achosion cyffuriau a thwyll, y defnyddir PPE o hyd i helpu i gategoreiddio pa mor ddifrifol yw'r achosion mewn rhai amgylchiadau.
10. Yn y cynllun cyfredol, caiff y cyfnod rhwng dyddiad y Gwrandawriad Paratoi ar gyfer Treial a Phledio a'r dyddiad y rhestrir diwrnod cyntaf y treial arno ei ddefnyddio i benderfynu a delir ffi pledio'n euog neu ffi treial wedi chwalu. Bydd achosion sy'n pledio'n euog yn nhraean cyntaf y cyfnod hwn yn cael ffi pledio'n euog; bydd achosion lle ceir ple o euogrwydd yn nau draean olaf y cyfnod hwn yn cael ffi treial wedi chwalu.
11. Rydym yn bwriadu newid diffiniadau ple euog cynnar a ffi treial wedi chwalu fel y gallwn gwrdd yn well â'r egwyddor o dalu am waith a wnaed. Yn y cynllun arfaethedig dim ond pan fyddai'r amddiffyniad wedi ffeilio tystysgrif parodrwydd ar gyfer treial y byddai ffi treial wedi chwalu yn cael ei thalu. Dyma'r pwynt pryd y maent yn ardystio, gerbron y llys, bod eu hachos yn barod i symud ymlaen i dreial - felly fe ddylai'r rhan helaethaf o waith paratoi'r achos fod wedi cael ei wneud erbyn y pwynt hwn. Mae'n deg i'r cynllun ffioedd adlewyrchu hyn.
12. Yn olaf, rydym yn cynnig cyfyngu'r defnydd o Baratoi Arbennig i dalu eiriolwyr drwy dynnu'r ymadrodd 'anarferol iawn' o'r meini prawf cymhwyster. Yn wahanol i'r cynllun presennol byddai'r system gategoreiddio achosion mwy cynhwysfawr a gynigir gan yr ymgynghoriad yn cwmpasu sbectrwm ehangach o gymhlethdod ac felly'n lleihau'r angen i ddibynnu ar Baratoi Arbennig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd rhai achosion lle bydd angen taliadau ychwanegol, ac felly byddwn yn parhau â'r darpariaethau ar gyfer pwyntiau cyfreithiol neu ffeithiol newydd.